**Cyfarfod Llawn 2002 - 2003 (46)**

**Dydd Mercher, 29 Ionawr 2003**

# AGENDA

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg: Strwythur i amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau**

**Eitem 4**
**Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) (Cymru) 2003**
**NDM1318 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr 2003.

**NDM1319 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2003.

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r Gorchymyn drafft a'r Arfarniad Rheoliadol, y gosodwyd copi o'r ddau ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Ionawr

2003 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2003.

Cliciwch yma am y Gorchymyn
Cliciwch yma am Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Cliciwch yma am y Memorandwm Cywiriadau

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo Rhan IV Deddf Amgylchedd 1995 - canllawiau polisi Rheoli Ansawdd Aer Lleol i ategu Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002 dan Reolau Sefydlog 23 a 27.2(iii) -** *Ni gyflwynwyd cynnig.*

**Eitem 6**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Brif Weinidog Cymru**
**NDM1320 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Plant a Mabwysiadu 2002 i Brif Weinidog y Cynulliad, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gyda'r ddealltwriaeth y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol."

*Gellir gweld Deddf Plant a Mabwysiadu 2002 ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiad hwn: http://www.legislation.hmso.gov.uk/acts/acts2002/20020038.htm*

**Eitem 7**
**Dadl ar Orchymyn Diwygio Rheoliadol: Cytunebau Rheoli Tai**
**NDM1321 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24 yn cytuno bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y Gorchymyn Diwygio Rheoliadol (Cytundebau Rheoli Tai) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Ionawr 2003.

Mae cymhwyso'r Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar ganiatâd Cynulliad Cenedlaethol

Cymru.

Cliciwch yma am y ddogfen.

**Eitem 8**
**Dadl ar hynt y gwaith o roi Creative Future - Cymru Greadigol ar waith**
**NDM1322 Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r camau a gymerwyd y llynedd o ran gweithredu strategaeth ddiwylliant Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y nodir yn *Creative Future: Cymru Greadigol*, ac mae'n edrych ymlaen at gyrraedd targedau newydd yn y flwyddyn sydd i ddod.

*Gellir gweld Creative Future: Cymru Greadigol ar y Rhyngrwyd gan ddefnyddio'r cysylltiadau hyn:*

*http://www.wales.gov.uk/subiculture/content/creative/creative_home-e.htm*

*http://www.cymru.gov.uk/subiculture/content/creative/creative_home-w.htm*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*
(1)
(2)

**Gwelliant 1 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu 'er budd Cymru gyfan' ar ôl 'targedau newydd'

**Eitem 9**
**Dadl fer - NDM1323 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Yr Ymgyrch dros Amgueddfa Hanes Llafur

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 4 Chwefror 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**